COFNODION O GYFARFOD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD AR DDYDD GWENER 1 MAWRTH AM 14:00

Yn bresennol

Cynghorydd B Stephens – Cadeirydd

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | S J Griffiths | G John | JC Spanswick |
| P Davies | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C Stallard

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Galar a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol Gwasanaethau Democrataidd |
| Christopher Morris | Rheolwr Cyllid – Rheoli a Chau Ariannol |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 37. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod o Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo, dyddiedig 1 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 1 Mawrth 2024 |

## 38. Cynllun Busnes a Ffioedd yr Amlosgfa

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Galar a Chofrestrydd yr adroddiad hwn gan grynhoi statws cyffredinol yr Amlosgfa a'i hymarferion ynghylch cyflogaeth, hyrwyddo a chynaliadwyedd, yn ogystal ag ymdrin â phryderon ynghylch prisio o'i gymharu ag Amlosgfeydd eraill.<br><br>Codwyd cwestiynau gan aelodau ynghylch Atodiad 2 o ffurf yr adroddiad a chostau posib a'r dyfodol a atebwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Galar.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd yr adroddiad gan y pwyllgor gan fanylu ar ddim codiad mewn costau wrth symud ymlaen, gan nodi fod adborth cadarnhaol am yr Amlosgfa yn uchel iawn ac y dylid diolch i'r staff am eu hymdrechion. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 1 Mawrth 2024 |

## 39. Perfformiad Ariannol 2023-24 a'r Gyllideb Refeniw a Gynigir 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfrifydd - Ariannol ei adroddiad yn manylu ar ragwelediad o berfformiad ariannol yr Amlosgfa, yn ogystal â chofnodion ariannol y flwyddyn flaenorol yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru i'w harchwilio. Rhoddwyd eglurhad ynghylch y diffyg a ragwelir o £933,000, sy'n uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol o £71,000. Nodwyd hefyd yr angen i gynnwys dyfarniad cyflog yn y dyfodol fel cost arall posib.<br><br>Cafwyd cwestiynau gan yr aelodau ynghylch: |

| | |
|---|---|
| | • tanwariant ar waith cynnal a chadw arfaethedig<br>• swyddi gwag<br>• gwahaniaethau pris gyda nwy a thrydan<br>• rheolaeth a chadw arian wrth gefn<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Galar a'r Cyfrifydd - Ariannol, gan nodi'r tueddiadau mewn prisiau cyfleustodau, sefyllfa anodd o dro i dro wrth geisio recriwtio a strwythur datganiadau ariannol yr Amlosgfa fel rhan o BCBC.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd yr adroddiad gan y pwyllgor, gan nodi'r diffyg a ragwelir a chymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024-25. Cytunwyd y byddai'r Cyfrifydd Ariannol yn e-bostio'r Cynghorydd Griffiths gyda manylion pellach. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 1 Mawrth 2024 |

## 40. Rhaglen Cyfarfodydd 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Galar yr adroddiad hwn gan fanylu ar y rhaglen a gynigir o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn unol â'r Memorandwm Cytundeb gyda'r Cyd-bwyllgor, gan gynnwys y dyddiad a gynigir ar gyfer ethol cadeirydd nesaf am y flwyddyn.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd yr adroddiad gan y pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 1 Mawrth 2024 |

## 41. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 1 Mawrth 2024 |

| | |
|---|---|

I weld y trafodaethau eraill a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:46.